

Annwyl riant/ofalwr

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein trefniadau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Mae'r trefniadau hyn yn seiliedig ar ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Gellir eu gweld trwy'r linc isod:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau>

Gellir gweld copi o'r canllawiau ar ein gwefan.

## Trefniadau dechrau tymor:

- Dydd Mercher 1<sup>af</sup> o Fedi - HMS
- Bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol fel a ganlyn:


Dydd/dyddiad	Grwpiau Blwyddyn yn yr Ysgol o'r dyddiad hwn ymlaen
Dydd Iau 2ail o Fedi	Blynyddoedd 7 ac 11 yn unig. (Bydd grŵp bach o ddisgyblion o Flynyddoedd 9 a 10 yn cael hyfforddiant mentora. Cysylltir â'r disgyblion hyn yn uniongyrchol).
Dydd Gwener 3ydd o Fedi	Pob grŵp blwyddyn: 7, 8, 9, 10 ac 11.

Sylwch - gall y trefniadau uchod newid, a byddant yn dibynnu ar ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Mae'r penderfyniad i ddychwelyd i'r ysgol yn rhanol yn seiliedig ar y rhesymeg ganlynol: Ychydig o gyfleoedd trosglwyddo cafodd Blwyddyn 7, a byddant yn elwa o gael un diwrnod i ddod yn gyfarwydd â'r ysgol a dysgu dilyn eu hamserlen newydd. Fel y disgyblion hŷn, bydd Blwyddyn 11 ar gael i'w cefnogi, ar fysiau (os yw'n berthnasol), ac o amgylch yr ysgol. Dydd Gwener, bydd pob disgybl arall yn derbyn eu hamserlenni, a byddant yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'n gweithdrefnau gweithredu. Bydd hwn yn gyfle i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Rydym yn gobeithio y bydd y dull hwn yn caniatáu i bob disgybl i ddechrau yn llawn ar eu hamserlenni o Ddydd Llun 6ed o Fedi.

## Côd gwisg:

Ym mis Medi, bydd disgwyl i bob disgybl wisgo crys, tei a siwmpwr ysgol fel y dangosir. Dangosir hefyd ein Cit Addysg Gorfforol, sy'n dangos y top hyfforddi a'r sgort a'r siorts. Gellir prynu eitemau AG pellach, fel y top rygbi a'r gôt chwaraeon hefyd.



**Trowsus:** Trowsus du wedi'u teilwra o hyd priodol - ni chaniateir unrhyw ddenim/ dim jîns sgini / dim 'leggings', h.y. trowsus sy'n dynn ar flaen y goes a'r bigwrn. Dylai'r trowsus fod yn syth neu 'bootleg' o'r ben-glin. Mae'r brand canlynol yn dderbyniol - 'Banner trimly senior trouser'.

**Sgert:** Dylai sgertiau fod hyd y pen-glin. Y brand derbyniol yw 'David Luke 969'.

**Crys/blowsen:** Crys neu flowsen wen blaen, gyda llewys hir.

**Tei:** Blwyddyn 7, 8 a 9 – tei coch a gwyrdd. Blwyddyn 10 a 11 – tei gwyrddlas a du.

**Esgidiau:** Esgidiau du plaen.

**Ewinedd:** Mae angen hyd priodol/addas o ewinedd.

**Gwallt:** Lliw gwallt addas. Ni dderbynnir unrhyw liw artiffisial o unrhyw liw!

**Colur:** Colur naturiol ac addas.

**Tlysau corff:** Dim ond tlws trwyn clir sy'n cael ei ganiatáu, dim modrwyau trwyn o gwbl. Ni chaniateir unrhyw dlysau wyneb eraill.

**Gemwaith:** Gall y disgyblion wisgo oriawr ac un fodrwy (dewisol). Clustlysau – caniateir un 'stud' ym mhob clust. Mae oriawr 'SMART' yn cael ei ganiatáu, ond bydd yn rhaid ei dynnu yn ystod yr arholiadau.

Cysylltwch â'r ysgol os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am y wisg ysgol.

### **Gweithdrefnau 'Covid':**

Yn unol â'r canllawiau, ein bwriad yw gwneud y newidiadau lleiaf, ond pwysig, ar gyfer dechrau'r tymor, gyda newidiadau pellach posibl yn cael eu gwneud wrth i ni dderbyn arweiniad bydd wedi'i ddiweddarau, ac wrth i ni adolygu ein prosesau trwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn bwriadu cadw'r canlynol yn eu lle:

- Bydd y disgyblion yn parhau i lanweithio eu dwylo ar ddechrau'r holl wersi, ac yn sychu ar y diwedd;
- Byddwn yn cadw'r parthau grwpiau blwyddyn yn eu lle yn ystod amser egwyl a chinio, a bydd ein system unffordd yn parhau;
- Bydd disgyblion yn dod i mewn i'r ysgol trwy wahanol fynedfeydd (fel nawr), ac yn cael eu tywys i'w parthau. Bydd staff yn cwrdd ac yn cyfarch disgyblion,

ac yn gofyn am eu hiechyd. (Ni fydd tymheredd y disgyblion yn cael eu gwirio - gweler isod);

- Bydd strwythur y dydd yn aros gydag egwyl/cinio anghyfnewidiol ar gyfer CA3 a 4;
- Bydd gofyn i ddisgyblion wisgo cit AG i'r ysgol ar ddiwrnodau pan fydd ganddynt AG;
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo awyru da trwy agor ffenestri/drysau;
- Bydd yr ystafelloedd dosbarth yn parhau i gael eu trefnu gyda disgyblion yn gwynebu'r tu blaen;
- Byddwn yn gofyn i'r disgyblion barhau i wisgo masgiau mewn coridorau wrth symud rhwng gwersi, ac mewn ardaloedd gorlawn;
- Byddwn yn parhau i annog disgyblion i gynnal profion 'LFT'. Mae'r gweithdrefnau 'TTP' newydd yn debygol o ofyn i ddisgyblion a nodwyd fel cysylltiadau agos, neu bosibl agos, gynnal 'LFT' cyn cael caniatâd i ddod yn ôl i'r ysgol;
- Byddwn yn parhau â'n trefniadau glanhau yn ystod y dydd;
- Bydd gofyn i ddisgyblion barhau i wisgo masgiau ar fysiau.

#### **Ni fyddwn yn parhau â:**

- Swigod addysgu caeth. h.y. gellir symud disgyblion rhwng grwpiau addysgu;
- Gweithdrefnau diwedd dydd cyfnodol. Bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu rhyddhau gyda'i gilydd am 3:10 yp;
- Gwisgo masgiau wyneb mewn gwersi, er y gall disgyblion barhau i wneud hynny os y dymunant;
- Gwiriadau tymheredd ar gyfer staff a'r disgyblion wrth gyrraedd (er bydd disgyblion sy'n teimlo'n sâl yn ystod y dydd yn cael eu gwirio).

Hoffwn eich annog i fod yn wylidwrus o'r symptomau arferol, yn ogystal ag ystod ehangach o symptomau (mewn print bras isod) sy'n gysylltiedig ag amrywiadau newydd, fel yr amlinellwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru:

1. Peswch newydd a pharhaus
2. Tymheredd uchel
3. Colli blas ac arogl
4. **Blinder a/neu poen cyhyr**
5. **Gwddf tost a chur pen**
6. **Trwyn yn rhedeg**
7. **Cyfog a/neu chwydu**
8. **Dolur rhydd**

**Peidiwch ag anfon eich plentyn/plant i'r ysgol os maent yn arddangos unrhyw un o'r symptomau uchod, yn enwedig os ydyn nhw'n symptomau newydd a/neu anghyffredin.** Ystyriwch archebu prawf 'PCR' cyn gynted â phosibl. Dylai eich plentyn hunan-ynysu tra yn aros am ganlyniad y prawf. Rhowch wybod i'r ysgol cyn gynted â phosibl os oes gennych unrhyw bryderon.

Rwy'n falch bod llawer o'n disgyblion yn cymryd rhan yn y Rhaglen Profi Llif Ochrol. Byddwch yn derbyn llythyron yn egluro rhesymeg a methodoleg cynnal profion yn y cartref ddwywaith yr wythnos. Y mwyaf o ddisgyblion sy'n cymryd rhan, y mwyaf hyderus y gallwn fod nad yw'r pandemig yn cylchredeg yn yr ysgol. Gofynnaf am eich cefnogaeth i gytuno i ganiatáu i'ch plentyn/plant gymryd rhan yn y rhaglen. Pe byddem yn ddigon anffodus i gael achos cadarnhaol, bydd canlyniadau'r Profion Llif Ochrol yn ei gwneud hi'n haws adnabod disgyblion na fyddai angen iddynt hunan-ynysu, ond yn hytrach gallu parhau i weithio o'r ysgol. Rydym yn aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru ar sut y gellir defnyddio profion 'LFT' mewn ysgolion er mwyn osgoi gofyn i ddisgyblion-cyswllt agos hunan-ynysu.

Gobeithio y bydd y pwyntiau uchod yn eich sicrhau y bydd yr ysgol yn parhau i flaenoriaethu diogelwch disgyblion a staff wrth i ni gymryd camau yn ôl tuag at weithio'n arferol. Ein nod yw cydbwysu'r risg a achosir gan Covid, yn erbyn blaenoriaethu dysgu. Bydd asesiad risg yr ysgol yn cael ei ddiweddarau yn unol â'r chanllawiau, ac mae ar gael i'w weld ar ein gwefan.

Unwaith eto, gobeithio byddwch chi a'ch teulu yn mwynhau haf hamddenol a diogel, ac edrychwn ymlaen at weld eich plentyn/plant ym mis Medi.

Yr eiddoch yn gywir



Mr Paul Edwards  
Pennaeth